# Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau

Cylchythyr Canllawiau

Deddf Plant 2004

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif y Cylchlythyr: **35/2006**

Dyddiad Cyhoeddi: **Awst 2006**






## Canllawiau ar Gydweithio Lleol o dan Ddeddf Plant 2004





**PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU**

**CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION**

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau : Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau |
| **Cynulleidfa:** | Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru; Cyfarwyddwyr ac Aelodau Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r rhai â rolau cyfatebol mewn BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG; Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol; Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG (Cymru); Awdurdodau'r Heddlu a Phrif Gwnstabliaid heddluoedd Cymru; Prif Swyddogion Prawf; Tîmau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru<br><br>Partïon eraill â diddordeb: Fforymau Ieuenctid; Cyd gysylltwyr Fframwaith; Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd; Prif Swyddogion Cynghorau Iechyd Cymunedol gwasanaethau CAMHS; Sefydliadau Sector Gwirfoddol Sirol; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Sefydliadau Cydraddoldeb Hiliol Gwirfoddol yng Nghymru; Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid; Comisiynydd Plant Cymru; Y Ddraig Ffynci; Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru; Cyngor Gofal Cymru; unigolion a sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc. |
| **Trosolwg:** | Canllaw statudol a wnaed o dan adrannau 25(8), 26(5), a 27(4) o Ddeddf Plant 2004 yw'r ddogfen hon, yn ymdrin â chydweithredu lleol ac arweiniad o ran newid. |
| **Camau i'w cymryd:** | Dylai Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill weithredu adrannau 25, 26 a 27 o Ddeddf Plant 2004, yn unol â'r canllawiau hyn o 1 Medi 2006. |
| **Rhagor o Wybodaeth:** | Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:<br>David Middleton<br>Ffôn: 029 2082 5919<br>Ebost: cft@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol:** | Gellir eu cael gan:<br>Jane Hanbury<br>Ffôn: 029 2082 5101<br>Ebost: cft@cymru.gsi.gov.uk |
| **Dogfennau Cysylltiedig:** | Ymgynghoriad ar y Canllawiau Drafft ar Gydweithio Lleol o dan Ddeddf Plant 2004, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005. |

G/208/06-07
SBN 0 7504 8883 2
Gorffennaf
CMK-22-07-144
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2006

# PARTNERIAETHAU CRYFACH I WELLA CANLYNIADAU

# CANLLAWIAU AR GYDWEITHIO LLEOL O DAN DDEDDF PLANT 2004

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb | ii |
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Egwyddorion sy'n Sail i Gydweithio | 4 |
| 3. Gwella Effeithiolrwydd Gweithio mewn Partneriaeth | 6 |
| 4. Comisiynu ar y Cyd | 14 |
| 5. Integreiddio'r Gwaith o Ddarparu Gwasanaethau | 19 |
| 6. Asesu Cyffredin a Rhannu Gwybodaeth | 22 |
| 7. Mesurau Canlyniadau Cyffredin i Gefnogi Gwaith Partneriaeth | 24 |
| 8. Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc | 25 |
| 9. Arwain Newid - Rolau a Chyfrifoldebau | 26 |
| Atodiad 1: Cydgysylltu Partneriaethau Allweddol yn Strategol | 30 |
| Atodiad 2: Deddf Plant 2004 Adrannau 25-28 | 32 |

# CRYNODEB

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys canllawiau statudol o dan adrannau 25(8), 26(5) a 27(4) o Ddeddf Plant 2004. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi dyletswydd o gydweithio lleol ar awdurdodau lleol yng Nghymru ac i amrywiaeth o bartneriaid i wella lles plant a phobl ifanc o fewn ardal pob awdurdodau lleol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr arweiniol a dynodi aelod arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol nodi cyfarwyddwr gweithredol ac Aelod Bwrdd dynodedig nad yw'n swyddog, ac i Ymddiriedolaeth y GIG ddynodi Cyfarwyddwr arweiniol gweithredol ac anweithredol, i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am eu trefniadau unigol am gydweithio ym mhroses gynllunio'r bartneriaeth.

Mae Adran 1 yn nodi Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n disgrifio'r darpariaethau statudol.

Mae Adran 2 yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i gydweithio.

Mae Adran 3 yn ymdrin â gwella effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth.

Mae Adrannau 4 i 8 yn rhoi canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau ar y cyd, asesu cyffredin a rhannu gwybodaeth, gosod mesurau canlyniad cyffredin a gwybodaeth am Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

Mae Adran 9 yn ymwneud â phenodi unigolion arweiniol o fewn awdurdodau lleol, cyrff GIG a sefydliadau partner eraill.

Daw'r dyletswyddau newydd i rym ar 1 Medi 2006 ac mae'r canllawiau hyn yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw hefyd.

# 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn tair dogfen allweddol - *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth; Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru*; ac, yn fwy diweddar, *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*. Mae'r rhain yn seiliedig ar nifer o themâu craidd:

- sylfaen egwyddor yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- hawl i dderbyn gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- gwrando ar farn plant, pobl ifanc a theuluoedd, a gweithredu arni;
- rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhai mwyaf anghenus;
- ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth rhwng gwahanol sefydliadau lleol fel yr unig ffordd o gyflawni'r dyheadau hyn.

**1.2** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau lleol arwain y blaen wrth hybu gweithio mewn partneriaeth sy'n sicrhau gwasanaethau integredig effeithiol i blant a phobl ifanc. Mae partneriaethau lleol yn ddull hanfodol ar gyfer cyflawni dyheadau Llywodraeth y Cynulliad i wella swm ac ansawdd gwasanaethau yng Nghymru, fel y nodir yn *"Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru"*.

**1.3** Nod y strategaeth hon yw gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc drwy gryfhau cydweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus a chyda'u partneriaid yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Mae'n gosod pobl a chymunedau yn y canol, gan alluogi pobl i gymryd rhan weithgar yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n hyrwyddo ffocws ar ganlyniadau, yn hytrach na chydymffurfio â phrosesau. Mae'r canllawiau hyn ar gryfhau partneriaethau yn hybu polisi cenedlaethol y cytunwyd arno gyda phartneriaid.

**1.4** Dim ond pan fo asiantaethau yn cydweithio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cydlynol ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc y gellir cyflawni gwell canlyniadau iddynt. Ers cyhoeddi'r canllawiau hyn, Fframwaith ar gyfer Partneriaeth, ym mis Gorffennaf 2002, mae partneriaid lleol wedi ymroi egni ac ymrwymiad sylweddol er mwyn sefydlu cydweithio ledled Cymru.

## Darpariaethau Statudol

**1.5** Mae Rhan 3 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod sail statudol newydd ar gyfer cynllunio a gweithio mewn partneriaeth er mwyn hybu'r weledigaeth hon. Mae adrannau 25, 26, 27 a 28 yn rhoi grym i'r Cynulliad gyhoeddi canllawiau ynghylch cyflawni'r swyddogaethau statudol newydd.

**1.6** Mae adran 25, sy'n dod i rym ar 1 Medi 2006, yn ei gwneud yn ofynnol bod cydweithio lleol rhwng awdurdodau gwasanaethau plant (awdurdodau lleol) yng Nghymru, asiantaethau partner allweddol ("partneriaid perthnasol") a chyrff perthnasol eraill ("cyrff neu bartneriaid eraill"), gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a chymunedol, er mwyn gwella lles plant yn yr ardal. Mae'n galluogi partneriaid penodedig i gyfuno cyllidebau ac adnoddau eraill anariannol er mwyn cefnogi'r trefniadau hyn. O dan isadran (8) mae gan y Cynulliad bŵer i gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylai'r trefniadau hyn weithio.

**1.7** Mae adran 26 yn galluogi'r Cynulliad, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi un cynllun neu fframwaith o gynlluniau ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried canllawiau y mae'r Cynulliad yn eu rhoi iddynt ynghylch sut i gyflawni eu swyddogaethau o dan y rheoliadau. Mae adran 26 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi cynlluniau addysg sengl ar gyfer 2006-08. Gwneir rheoliadau pellach i'w gwneud yn ofynnol i roi cynlluniau plant a phobl ifanc cyffredin ar waith o 2008 ymlaen. Byddwn yn ymgynghori yn ddiweddarach yn 2006.

**1.8** Mae adran 27 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru benodi o fis Medi 2006 ymlaen gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldeb am gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau a wnaed o dan adrannau 25 a 26. Nid yw hyn yn effeithio ar gyfrifoldebau darparu gwasanaethau presennol y Prif Swyddog Addysg a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n ofynnol i awdurdod gysylltu cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr arweiniol ag 'aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc'.

**1.9** Mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol, partneriaid statudol mwyaf sylweddol yr awdurdodau lleol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, benodi cyfarwyddwyr arweiniol gweithredol ac anweithredol (yn achos ymddiriedolaeth y GIG) a swyddog arweiniol ac aelod arweiniol (yn achos Bwrdd Iechyd Lleol) i ymdrin â'r trefniadau o dan adran 25.

**1.10** O dan isadran 27(4) gall y Cynulliad gyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau cyfarwyddwr arweiniol ac aelod arweiniol. Y bwriad yw y dylai'r rolau arwain hyn ganolbwyntio ar hyrwyddo newid a galluogi cydweithio, yn hytrach na chymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau penodol. Mae'r ymagwedd yng Nghymru yn wahanol iawn i'r ymagwedd a geir yn Lloegr. Nid yw'n fwriad sefydlu Ymddiriedolaethau Plant, nac integreiddio strwythurau sefydliadau o dan un cyfarwyddwr.

**1.11** Canllaw statudol a wnaed o dan adrannau 25(8), 26(5), a 27(4) yw'r ddogfen hon, yn ymdrin â chydweithredu lleol ac arweiniad o ran newid. Mae'n gymwys o 1 Medi 2006 ymlaen.

**1.12** Yn ddiweddarach yr haf hwn byddwn yn ymgynghori ar drefniadau i gryfhau'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd o ran trefniadau adolygu a lleoli a darpariaeth iechyd ac addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gan adeiladu ar y dyletswyddau cyffredinol a osodwyd gan Ddeddf Plant 2004 (adrannau 25, 26, 27, 28) a Deddf Plant 1989 (adrannau 22 a 27) o ran rhwymedigaethau awdurdodau lleol a'u partneriaid statudol i gydweithio, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau statudol o dan adran 25(8) i nodi swyddogaethau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymgymryd â hwy er mwyn cyflawni eu dyletswyddau i wella addysg ac iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal.

**1.13** Drwy'r ddogfen hon, mae cyfeiriadau at deuluoedd yn cyfeirio at y rhai sy'n cymryd cyfrifoldeb am fagu plant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys mamau a thadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llystadau a llysfamau, teidiau a neiniau ac mewn rhai achosion aelodau o'r teulu estynedig megis modrybedd ac ewythrod.

## 2. EGWYDDORION SY'N SAIL I GYDWEITHIO

**2.1** Y themâu allweddol yw:

- **Cymhwyso egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

**2.1.1** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig fel sail ar gyfer ei holl ymwneud â phlant a phobl ifanc, a dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol ystyried ei egwyddorion wrth ddarparu gwasanaethau.

- **Cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i ddiwallu anghenion cwsmeriaid**

**2.1.2** Mae angen i weithwyr proffesiynol gynllunio i weithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc unigol, gan ddefnyddio offer megis y Fframwaith Asesu Cyffredin.

- **Sicrhau bod lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd i'w clywed**

**2.1.3** Rhaid bod plant a phobl ifanc yn gallu dylanwadu ar y gwaith cynllunio a darpariaeth y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Mae hefyd yn hanfodol, ar gyfer ansawdd a diogelwch gwasanaethau, y gall plant a phobl ifanc unigol fynegi eu barn a gwybod y gwrandewir ar eu cwynion pan aiff rhywbeth o'i le.

- **Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhai sydd fwyaf mewn angen**

**2.1.4** Dylai hyd a lled cydweithio lleol gwmpasu pob plentyn a pherson ifanc y grŵp oedran hwnnw. Ond er mwyn gwireddu eu potensial mae angen mwy o sylw gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ar rai, megis plant mewn angen, gan gynnwys plant a phobl ifanc anabl a'r rhai y mae awdurdodau lleol yn gofalu amdanynt, plant a phobl ifanc sydd â chysylltiadau â'r system cyfiawnder troseddol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Dylai cynlluniau ar gyfer cydweithio lleol ganolbwyntio'n benodol arnynt hwy.

- **Cynllunio ar gyfer gwasanaethau ataliol**

**2.1.5** Po gynharaf y gellir ymyrryd y mwyaf yw'r siawns y bydd yn llwyddo. Nid yn unig y mae hyn yn well ar gyfer y plentyn unigol, ond mae hefyd yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau adweithiol sydd o dan bwysau mawr am ymyrraeth ddrud yn ddiweddarach. Ariannwyd llawer o waith ataliol gan gynllun grant Cymorth, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i bartneriaid lleol ymrwymo eu cyllidebau craidd eu hunain i waith ataliol.

- **Integreiddio mesurau i amddiffyn plant a phobl ifanc**

**2.1.6** Rhaid i fesurau amddiffyn fod yn rhan annatod o bob gwasanaeth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oes unrhyw faint o fetio cystal ag arfer proffesiynol da o ran diogelu, hybu eu lles a gwrando ar blant a phobl ifanc.

- **Cynnwys gwasanaethau cyffredinol, yn enwedig addysg**

**2.1.7** Gwendid cyffredin cydweithio yw ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar wasanaethau a ariennir gan Cymorth ac nid yw'n mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cyffredinol ac ariannu prif ffrwd. Ni all cydweithio lwyddo o ran gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc oni bai ei fod yn cwmpasu gwasanaethau cyffredinol a defnydd o arian prif ffrwd awdurdodau lleol, y GIG ac arian arall. Yn ogystal, dylai cydweithio gynnwys cyfeiriad at y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth a'r Offeryn Archwilio Hunan-Asesu sy'n sail ar gyfer cydgynllunio a'r adolygiad o welliannau gwasanaeth.

- **Integreiddio darpariaeth drwy gomisiynu ar y cyd a thrwy ariannu cyfun**

**2.1.8** Mae'n hanfodol bod cynllunio ar gyfer cydweithio yn cwmpasu trefniadau ar gyfer comisiynu ar y cyd ac ariannu cyfun os ydynt am alluogi amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaethau cwbl effeithiol sy'n canolbwyntio ar blant.

- **Gwerthfawrogi amrywiaeth a hybu cyfle cyfartal**

**2.1.9** Mae *Iaith Pawb* yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i wneud Cymru yn wlad wirioneddol ddwyieithog. Drwy hyn golygwn wlad lle gall pobl fyw eu bywydau drwy'r Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith. "Mae'r gallu i ddewis iaith yn rhan bwysig o ddarpariaeth gwasanaeth gofal o safon uchel" (Iaith Pawb, 2002: 47). Ar gyfer grwpiau penodol, yn arbennig plant a phobl ifanc, y rhai ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, dangosodd ymchwil ei bod yn arbennig o bwysig y caiff gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i bwysleisio pwysigrwydd gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth ac mae'n gweithio gyda sefydliadau darparu gwasanaethau er mwyn ceisio cyflawni'r nod hwn.

**2.1.10** Yn ogystal, siaredir amrywiaeth o ieithoedd eraill yng Nghymru. Bydd angen i gydweithio lleol ystyried y ffactorau hyn, gan gynnwys cynyddu darpariaeth gwasanaethau dwyieithog i blant a phobl ifanc waeth beth fo'u hanghenion a'u gallu.

**2.1.11** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb rhyw a hil ac i fynd i'r afael â chamwahaniaethu. Wrth weithio gyda'i gilydd, rhaid i bartneriaid ystyried eu cyfrifoldebau i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu camwahaniaethu drwy ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

# 3. GWELLA EFFEITHIOLRWYDD GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

**3.1** Mae Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i arwain y blaen wrth hybu cydweithio â phartneriaid 'perthnasol' a chyrff eraill o'r fath y cred yr awdurdod lleol eu bod yn briodol, gyda'r nod o wella lles plant yn ardal pob awdurdod lleol.

### Amcanion Gweithio mewn Partneriaeth

**3.2** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu saith amcan craidd fel sail i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent yn ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau'n deg;
- yn cael amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- yn profi'r iechyd gorau posibl ac yn rhydd o erledigaeth, cam-drin a cham-fanteisio;
- yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae, hamdden a chwaraeon;
- yn cael clust i wrando, yn cael eu trin â pharch ac yn cael arddel eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
- yn rhydd o anfantais oherwydd tlodi.

**3.3** Yr amcanion hyn yw'r sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol a dylent fod yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch strategaeth a darparu gwasanaethau yn lleol.

### Partneriaethau - Trefniadau Presennol

**3.4** Ers 2002, mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad (Fframwaith ar gyfer Partneriaeth) wedi ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc i ddwyn yr holl bartneriaid lleol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ynghyd a bod yn gyfrifol am gynllun fframwaith cyffredin. Darparodd y canllawiau ar gyfer dau is-grŵp, y bartneriaeth plant a'r bartneriaeth pobl ifanc, yn gyfrifol am lunio cynlluniau mwy manwl ar gyfer Hawl Bore Oes (plant 0-10 oed) ac Ymestyn Hawliau (pobl ifanc 11-25 oed).

**3.5** Nid oes sail statudol i'r partneriaethau plant. Maent yn cynllunio ac yn sicrhau y darperir ystod gydlynol o wasanaethau ar gyfer plant 0-10 oed yn yr ardal, ac yn cynhyrchu cynllun, yn seiliedig ar y Cynllun

Fframwaith cyffredin, sy'n nodi'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer plant 0-10 oed yn fanylach.

**3.6** Mae Partneriaethau Pobl Ifanc yn ofynnol o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae cyfarwyddyd o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol fod â threfniadau ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae canllawiau statudol o dan y Ddeddf yn nodi hyn yn llawnach o ran Partneriaeth Pobl Ifanc i gynllunio a sicrhau y darperir ystod gydlynol o wasanaethau ar gyfer yr holl bobl ifanc yn ei hardal, gan weithio'n agos iawn â phobl ifanc. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y gall pobl ifanc:

- gyfranogi yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;
- manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth;
- cyfranogi yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

**3.7** Mae'n ofynnol i Bartneriaethau Pobl Ifanc gynhyrchu cynlluniau strategol pum mlynedd a chynlluniau cyflawni blynyddol.

**3.8** Mae'n ofynnol i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ymhob awdurdod lleol o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002. Mae cynlluniau ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar yn rhan o'r cynlluniau addysg sengl ac ymdrinnir â chyfrifoldeb cynllunio gofal plant yng Nghynllun Cymorth.

## Partneriaethau - Trefniadau Newydd

**3.9** O 2008 ymlaen bydd yn ofynnol i ardal pob awdurdod lleol fod â chynllun plant a phobl ifanc yn cwmpasu'r holl wasanaethau ar gyfer y rhai hynny sy'n 0-25 oed a gwasanaethau mamolaeth. Mae trefniadau partneriaeth cryfach yn angenrheidiol ar gyfer datblygu a chyflawni'r cynlluniau hyn drwy weithio effeithiol ar y cyd. Mae ymrwymiad hefyd yn natganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad *Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol (2002)*, i ddatblygu polisi a fframwaith cynllunio cydlynol ar gyfer awdurdodau lleol ac edrych ar lle y gellir rhesymoli partneriaethau. Yn fwy diweddar daeth adolygiad Beecham i'r casgliad y gall gofynion partneriaeth rhy gymhleth sefyll yn ffordd y gwaith o gynllunio gwasanaethau effeithiol.

### *Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc*

**3.10** Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Plant 2004. Rhagwelir y bydd y rhain yn adeiladu ar y Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y Partneriaethau yn gyfrifol am wasanaethau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc o'r cyfnod cyn-geni hyd at 18 oed, ynghyd â'r rhai sy'n cyfranogi mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid neu'n eu derbyn (yn ystyr Adran 123 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau) hyd at 25 oed, a phobl sy'n gadael gofal (hyd at 21 neu 25 oed os ydynt mewn addysg neu o dan hyfforddiant).

**3.11** Mae gan y partneriaethau statudol newydd gyfrifoldeb am ddatblygu a chytuno ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y datganiad strategol allweddol sy'n nodi sut y caiff lles pob plentyn a pherson ifanc yn yr ardal ei wella. Bwriedir i hyn:

- ddarparu gweledigaeth strategol a datgan y blaenoriaethau y cytunir arnynt a fydd yn llywio gwaith pob partner;
- disgrifio sut yr ymdrinnir yn lleol â gofynion strategaethau, polisïau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- nodi amcanion ar y cyd y cytunir arnynt ar gyfer gwasanaethau sy'n gallu gweithredu fel cerrig milltir er mwyn galluogi cynnydd wrth wella canlyniadau i gael ei fesur dros yr amserlen cynllunio;
- nodi'r cyfraniad a wneir gan bartneriaid unigol tuag at gyflawni cydamcanion, gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn cefnogi'i gilydd;
- bod yn sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd a rhannu'r arian sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd partneriaid statudol a chyfraniadau gan y sector gwirfoddol o ran adnoddau neu arian.

**3.12** Mae'r Ddeddf Plant (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r rhestr isod fel partneriaid perthnasol yr awdurdod lleol:

- awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Llywodraeth y Cynulliad i'r graddau ei bod yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

**3.13** Dylai cynrychiolaeth yr awdurdod lleol gynnwys y Cyfarwyddwr a'r Aelod Arweiniol a chynrychiolwyr o fyd addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth ieuenctid. Fel arfer y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Aelod Bwrdd penodedig o'r BILl nad yw'n swyddog ddylai gynrychioli'r GIG; a Chyfarwyddwyr Arweiniol Gweithredol ac Anweithredol ymddiriedolaethau perthnasol y GIG.

**3.14** Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl wasanaethau perthnasol o fewn ardal yr awdurdod yn chwarae eu rhan o ran gwaith partneriaeth ac yn cydweithredu i wella lles plant a phobl ifanc. Yn unol â hynny, dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc hefyd gynnwys:

- cynrychiolydd o ysgolion lleol;

- cynrychiolydd o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- cynrychiolwyr o fudiadau/grwpiau Cymraeg e.e. mentrau iaith, yr Urdd, grwpiau cymunedol lleol;
- cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- cynrychiolydd o sefydliadau gwirfoddol perthnasol, fel arfer Cyfarwyddwr y Cyngor Gwirfoddol Sirol.

**3.15** Mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn darparu gwasanaeth sylweddol, yn cefnogi'r broses o gynnwys partïon â diddordeb mewn trefniadau cyfranogi a'r gwaith o ddatblygu arfer arloesol. Mae Pwyllgorau Gwirfoddol Sirol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hwyluso eu hymwneud â datblygiad strategol, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

**3.16** Mewn rhai ardaloedd ceir gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan ddarparwyr preifat a darparwyr dielw. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â'r partneriaid a ddisgrifir uchod.

**3.17** Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yw'r mecanwaith statudol allweddol ar gyfer cydgysylltu gweithredoedd y sefydliadau sy'n aelodau ohono er mwyn diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc, gyda ffocws arbennig ar sicrhau cartref a chymuned ddiogel. Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn bartner pwysig yn y trefniadau lleol ar gyfer cydweithio.

**3.18** Dylai awdurdodau lleol hefyd geisio sicrhau bod y bartneriaeth yn rhoi cyfle i blant, pobl ifanc a theuluoedd ddweud eu dweud. Mae Adran 52 o Ddeddf Plant 2004 yn ymestyn dyletswyddau awdurdodau lleol fel ei bod yn ddyletswydd arnynt i ganfod dymuniadau a theimladau plant mewn angen a rhoi ystyriaeth briodol iddynt wrth ddarparu gwasanaethau o dan adrannau 17 ac 20 o Ddeddf Plant 1989. Fodd bynnag, efallai na fyddai presenoldeb uniongyrchol mewn cyfarfodydd partneriaeth yn briodol ac mae angen datblygu llwybrau eraill neu ddefnyddio dulliau sy'n bodoli eisoes i sicrhau mewnbwn plant a phobl ifanc. Dylid sicrhau cyfranogiad rhieni drwy gynnwys cynrychiolydd o'r Rhwydwaith Rhieni lleol ar y bartneriaeth. Cyhoeddwyd canllawiau ymgynghorol ar rwydweithiau gan Lywodraeth y Cynulliad (Gorffennaf 2006).

*Partneriaethau Pobl Ifanc*

**3.19** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r gofyniad statudol am Bartneriaethau Pobl Ifanc i gynllunio gwasanaethau cymorth ieuenctid lleol. Fodd bynnag, mae am sicrhau hyblygrwydd yn lleol o ran sut y cyflawnir y gofyniad statudol yn nhrefniadau cyffredinol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Drwy hynny gall awdurdodau lleol a'u partneriaid benderfynu p'un a ydynt am gadw cyfarfodydd ar wahân ar gyfer partneriaethau yn seiliedig ar oedran (megis y Partneriaethau Pobl Ifanc). Beth bynnag fydd eu penderfyniad, er mwyn bodloni'r gofyniad o gael Partneriaeth Pobl Ifanc bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod

cyfarfodydd perthnasol yn cynnwys cynrychiolaeth gytbwys o'r awdurdod lleol, cyrff statudol eraill a'r sector gwirfoddol, a hefyd:

- Cynrychiolydd o uwch staff Gyrfa Cymru
- Cynrychiolydd o Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
- Tri chynrychiolydd o sefydliadau gwirfoddol neu annibynnol sy'n ymwneud â phobl ifanc
- Cynrychiolwyr o fudiadau/grwpiau Cymraeg e.e. mentrau iaith, yr Urdd, grwpiau cymunedol lleol
- Un neu fwy o bob un o'r grwpiau canlynol:
  - cyflogwyr lleol
  - penaethiaid ysgolion uwchradd lleol
  - darparwyr addysg bellach a hyfforddiant lleol.

Efallai y bydd angen cynnwys:

- darparwyr addysg uwch
- Rheolwyr corfforaethol ar gyfer addysg gymunedol, gwasanaethau hamdden, diogelwch cymunedol, datblygiad economaidd, datblygiad cymunedol, trafnidiaeth
- Rheolwr hybu iechyd
- Y Gwasanaeth Prawf
- Canolfan Byd Gwaith
- Ffederasiwn Cymdeithasau Tai.

*Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*

**3.20** Mae hyblygrwydd gan awdurdodau lleol hefyd o ran sut i fodloni'r gofyniad statudol i gael Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn y Fframwaith Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, er mwyn bodloni'r gofynion statudol dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyfarfodydd perthnasol yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Ysgolion meithrin a gynhelir (lle mae ysgolion o'r fath gan yr awdurdod)
- Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
- Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru
- Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs (CPCKC)

- Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM)
- Meithrinfeydd y sector preifat
- Ysgolion annibynnol ac ysgolion eglwysig
- Cynghorau Cymuned Addysg a Hyfforddiant
- Cyflogwyr lleol
- Canolfan Byd Gwaith
- Swyddfa Ranbarthol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (sylwedydd).

*Partneriaethau Plant*

**3.21** Nid oes angen Partneriaethau plant sy'n canolbwyntio ar wasanaethau i blant 0-10 oed mwyach, er y gall awdurdodau ddewis cadw grŵp sy'n gysylltiedig ag oedran os byddant yn dymuno gwneud hynny.

*Gweithgorau*

**3.22** Ni ellir gwneud gwaith manwl yng nghyfarfodydd llawn Partneriaeth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae amrywiaeth o weithgorau ar y cyd, yn seiliedig ar themâu neu flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac yn fras adlewyrchu saith amcan craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn gweithio i gyflawni'r amcanion blaenoriaeth a nodwyd mewn cydgynlluniau lleol.

**3.23** Mae grwpiau o'r fath yn sail ddelfrydol ar gyfer cyd-ffocws ar fanylion cynllunio a darparu gwasanaethau ar draws y partneriaid perthnasol sy'n gyfrifol am wasanaethau ymhob thema. Mae datblygu'r grwpiau hyn, sy'n cynnwys partneriaid a fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ataliol cyffredinol sydd wedi eu targedu, yn helpu i gynllunio, darparu a mesur gwelliannau o ran cyd-ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Llywodraethu a Chyfrifoldeb Partneriaethau

**3.24** Mae pob partneriaeth yn drefniant cydweithredol ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd trefniadau cydweithio, gan gynnwys pennu blaenoriaethau a sefydlu cytundeb ar gyfer dyrannu cyfrifoldeb arweiniol am agweddau penodol ar y cynllun partneriaeth.

**3.25** Mae pob partner yn parhau i fod yn gyfrifol fel y mae ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Nid oes grym gan y bartneriaeth i gyfarwyddo'r sefydliadau sy'n bartner ynddi. Mae ei llwyddiant o ran cael pobl i gydweithio yn deillio o'i gallu i wneud penderfyniadau ar y cyd, penderfyniadau y mae partneriaid unigol yn gyfrifol amdanynt i'w cyd-bartneriaid.

**3.26** Bydd y broses o gryfhau gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am ddatganiadau eglur ac ystyrlon yn ymwneud â'r bartneriaeth a disgwyliadau partneriaid. Mae angen i'r trefniadau llywodraethu ddisgrifio:

- arweiniad effeithiol gan yr awdurdod lleol;
- rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid;
- trefniadau ar gyfer cynnwys pob partner allweddol yn llawn, gan gynnwys darparwyr gwirfoddol a darparwyr eraill;
- llinellau atebolrwydd a chyflwyno adroddiadau eglur at yr awdurdod lleol a byrddau'r partneriaid;
- ymddiriedaeth, cydweledigaeth ac ymrwymiad i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc gan bob partner;
- cyfathrebu dwy ffordd effeithiol rhwng y bartneriaeth a phob sefydliad sy'n bartner.

**3.27** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu dull llywodraethu enghreifftiol, yn seiliedig ar arfer da cyfredol a gofynion y canllawiau hyn.

### Rolau Cynrychiolwyr Partneriaid

**3.28** Mae effeithiolrwydd partneriaeth yn dibynnu ar allu cynrychiolwyr i wneud penderfyniadau priodol, a hynny adeg eu trafod lle bo hynny'n bosibl, heb gyfeirio'n ôl at eu hasiantaeth benodol. Dylai cynrychiolwyr partneriaeth fod o lefel ddigon uchel i allu siarad ar ran eu rhiant-gyrff, gwneud penderfyniad a rhoi ymrwymiadau, er enghraifft ar ariannu, ar ran eu sefydliadau.

### Cydgysylltu Partneriaethau Allweddol yn Strategol

**3.29** Ar draws Byrddau Lleol Diogelu Plant, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol mae aelodaeth graidd gyffredin o bartneriaid statudol (awdurdodau lleol, yr heddlu, a Byrddau Iechyd Lleol er enghraifft), a phob un ohonynt â chyfraniad pwysig i'w wneud o ran sicrhau mesurau effeithiol i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc.

**3.30** O ystyried natur drawsbynciol y cyrff hyn mae lle i ddatblygu llinellau atebolrwydd a strwythurau rheoli cyffredin. Anogir yr asiantaethau allweddol i ddatblygu strwythurau sy'n manteisio i'r eithaf ar drefniadau cydweithio, lleihau dyblygu a darparu llinellau atebolrwydd clir. Nodir manylion pellach yn atodiad 1 i'r canllawiau hyn.

### Hunan-asesiad Partneriaeth

**3.31** Er bod partneriaid yn treulio amser sylweddol yn y gwaith o gyd-gynllunio ac adolygu, nid ydynt yn treulio amser yn asesu effeithiolrwydd

proses y bartneriaeth bob amser. Gall gweithio mewn partneriaeth fynd â llawer o amser a chreu tyndra. Felly, dylai partneriaid neilltuo amser yn rheolaidd i ystyried pa mor llwyddiannus ac effeithiol yw eu trefniadau cydweithio.

**3.32** Dylai'r awdurdod lleol arwain yn y gwaith o adolygu proses y bartneriaeth ac effeithiolrwydd arfer partneriaeth gyda'r cyfarwyddwr arweiniol a'r aelod arweiniol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o reoli'r broses hunan-asesu. Dylid defnyddio offeryn Hunan-asesu Nuffield neu offeryn cyfatebol.

**3.33** Dylai'r bartneriaeth a'r partneriaid unigol roi ystyriaeth lawn i'r adborth a geir o'r asesiad hwn ar draws partneriaethau, a fydd yn galluogi partneriaid i ddangos effeithiolrwydd a gwelliant dros amser. Dylai'r broses wirio iechyd y bartneriaeth, nodi arfer effeithiol sydd angen ei newid a nodi anghenion hyfforddi y dylid mynd i'r afael â hwy drwy'r Rhaglen Datblygu Partneriaeth.

## Cymunedau yn Gyntaf

**3.34** O ystyried rôl allweddol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o fynd i'r afael ag amddifadedd a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol, dylid ystyried sut y gall Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gyfrannu at waith Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Dylid gwneud hyn mewn modd sy'n sensitif i'r ymagwedd datblygu cymuned ac sy'n adeiladu gydag amser i gymunedau allu ymateb. Mae pob Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn datblygu cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â chwe thema: swyddi a busnes; addysg a hyfforddiant; yr amgylchedd; iechyd a lles; cymuned weithredol; a throsedd a diogelwch cymunedol. Mae Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ymgynghori â chymunedau lleol ar eu hanghenion a'u blaenoriaethau a bydd eu cynlluniau gweithredu yn arbennig o ddefnyddiol i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc o ran pennu eu blaenoriaethau i weithredu arnynt.

# 4. COMISIYNU AR Y CYD

**4.1** "Comisiynu yw'r broses o nodi, sicrhau a monitro gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl ar lefel strategol. Mae hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth, p'un a gânt eu darparu gan yr awdurdod lleol, y GIG, asiantaethau cyhoeddus eraill neu gan y sectorau preifat neu wirfoddol." (cyfieithiad o Making Ends Meet, Y Comisiwn Archwilio. Hydref 2003.)

**4.2** Ni all unrhyw asiantaeth unigol gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y 7 amcan craidd ar ei phen ei hun. Dylid ystyried comisiynu ar y cyd lle bynnag y bo angen a nodwyd yn gofyn am gyfraniad gan fwy nag un partner.

**4.3** Bydd gwaith partneriaethau lleol, ac yn arbennig datblygiad y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, yn sail gadarn ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd. Mae comisiynu ar y cyd yn llwyddiannus yn gofyn am:

- Nodau ac amcanion cyffredin yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- Cyd-ymrwymiad i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Cyd-baratoi strategaethau comisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar gyd-asesiad angen;
- Nodi grwpiau cleientiaid penodol megis plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd angen cymorth arbenigol;
- Cydbwysedd rhwng atal ac ymyrraeth;
- Cyd-brosesau gan gynnwys dadansoddiad o angen, asesiad o effaith polisi, adolygiad o gynnydd.
- Cyfranogiad plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- Cyfraniadau gan amrywiaeth o ddarparwyr - sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat;
- Cyd-gyfrifoldeb am reoli'r broses ddarparu, yng nghyd-destun eglurder o ran rolau ac atebolrwydd;
- Y cyfle i rannu adnoddau, gan gynnwys cyllidebau cyfun.

**4.4** Gall lefelau o gomisiynu ar y cyd gynnwys:

- y strategol, lle dyrennir llawer o adnoddau at ddiben penodol dros amser;
- gweithredol, lle darperir gwasanaeth penodol;
- unigol, lle comisiynir gwasanaethau o gwmpas plentyn neu berson ifanc unigol.

**4.5** Dylai'r blaenoriaethau canlynol ategu unrhyw gomisiynu ar y cyd:

- Gwell dulliau atal ac ymyrraeth gynnar;
- Cefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar ac ar bwyntiau pontio;
- Gwell cydgysylltu ac integreiddio gwasanaethau;
- Asesu cyffredin a rhannu gwybodaeth;
- Mwy o gyfranogiad gan blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynllunio a blaenoriaethu camau gweithredu;
- Ffocws ar ganlyniadau;
- Gwerth gorau a gwelliant mewn meysydd arbenigol, megis lleoli plant sy'n derbyn gofal.

**4.6** Gall comisiynu ar y cyd a chronfeydd cyfun fod yn arbennig o werthfawr yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth sydd angen pecynnau o ofal gan nifer o asiantaethau a phartneriaid. Dylid ystyried comisiynu ar y cyd â phartneriaid bob amser lle bo adnoddau yn brin a'r costau yn uchel, neu lle bo cydgyfrifoldebau ar draws asiantaethau, megis wrth ddarparu lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Mae trefniadau trawsawdurdod o'r fath yn cael eu gwneud ledled Cymru eisoes.

**4.7** Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn nodi safonau cenedlaethol er mwyn gwella ansawdd a lleihau amrywiaeth o ran darparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc. Partneriaeth a chydweithio ar draws sefydliadau yw'r ffordd orau o sicrhau'r safonau hyn, gan alluogi cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol ar lefel leol. Maent yn ffon fesur y gellir mesur ansawdd a thegwch gwasanaethau yn ei herbyn dros gyfnod o amser ac yn fan cyfeirio ar gyfer comisiynu ar y cyd yn lleol.

## Y Cylch Comisiynu

### 4.8 Y sefyllfa Gyfredol - proses o ddadansoddi

**4.8.1** Cam cyntaf unrhyw broses gynllunio a chomisiynu ar y cyd yw deall anghenion lleol. Dylai partneriaid lleol ddechrau drwy ddwyn data allweddol ynghyd ar iechyd, datblygiad a lles plant a phobl ifanc, er mwyn creu proffil o'r angen yn yr ardal leol. Dylai hyn arwain at nodi patrwm y ddarpariaeth gyfredol. Mae'r broses hon yn golygu deall tueddiadau dros gyfnodau o amser a darogan galw yn y dyfodol.

**4.8.2** Mae asesu anghenion yn hanfodol. Rhaid rhoi digon o adnoddau i'r gwaith hwnnw fel bod modd casglu data o safon a chynnal dadansoddiad o safon.

**4.8.3** Caiff data ei gadw gan nifer o bartneriaid, yn bennaf yr awdurdod lleol (adrannau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, hamdden a thai); BILlau ac ymddiriedolaethau iechyd; ysgolion; yr heddlu; timau troseddau ieuenctid; a darparwyr gwirfoddol, cymunedol a phreifat lleol. Gall data ychwanegol ddod o'r Offeryn Archwilio Hunan-Asesu sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, gwerthuso gwasanaethau lleol ac adroddiadau adolygu ac arolygu.

**4.8.4** Dylai asesiad o ddata edrych ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc, a dylid chwilio am ganlyniadau ar eu cyfer. Mae angen ystyried ffactorau megis ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, statws ffoadur, amddifadedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**4.8.5** Dylai'r data a'r wybodaeth ansoddol a gesglir, ynghyd â barn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, cymunedau lleol a staff sy'n darparu gwasanaethau, fod yn sail ar gyfer asesiad integredig cyffredinol o anghenion. Bydd cyfranogiad gweithgar pob rhanddeiliad lleol yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau a ddatblygir yn lleol yn perthyn i'r ardal leol.

### 4.9 Cynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau, gyda ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar

**4.9.1** Mae cynllunio strategol yn golygu gwneud y cysylltiadau rhwng dadansoddi anghenion a'r patrwm o ddarparu gwasanaethau a fydd yn ofynnol. Dylid mapio gwasanaethau (a dulliau eraill o gyflawni canlyniadau) gyda chanlyniadau a chydag adnoddau i ddangos ble y ceir cydberthnasau, gorgyffwrdd a bylchau. Dyma'r asgwrn cefn i'r gwaith comisiynu ar y cyd gan ei fod yn dangos pa wasanaethau y dylid eu comisiynu, eu comisiynu'n wahanol neu eu dadgomisiynu.

**4.9.2** Dylai partneriaid gytuno ar flaenoriaethau lleol a nodi'r adnoddau sydd ar gael. Ar hyn o bryd nodir blaenoriaethau yn y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc lleol. O 2008 ymlaen bydd angen nodi'r rhain yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

**4.9.3** Dylid ystyried cyfleoedd i gomisiynu darpariaeth aml-asiantaeth, pa fodelau fyddai'n gweddu orau, ac ym mha leoliadau y gall gwasanaethau fod fwyaf hygyrch i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r gymuned. Yr adeg fwyaf effeithiol o ddarparu rhai gwasanaethau arbenigol yw pan fo màs critigol o ddefnyddwyr gwasanaeth ac felly dylai comisiynu lleol gynnwys ystyried y tu hwnt i ardal un awdurdod lleol.

**4.9.4** Mae rôl bwysig gan ddarparwyr i'w chwarae yn y gwaith o ddatblygu strategaeth a chynllun comisiynu ar y cyd lleol, drwy ymgynghori, ond ni allant fod yn uniongyrchol gysylltiedig â phenderfyniadau comisiynu oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl. Dylai'r partneriaid comisiynu holi eu barn mewn asesiad o angen ac adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol sy'n digwydd wrth ddatblygu strategaethau.

## 4.10 Comisiynu gwasanaethau yn effeithlon

**4.10.1** Mae cyd-strategaeth gomisiynu yn hanfodol er mwyn dwyn ynghyd holl elfennau asesu anghenion, cyfranogiad defnyddwyr, blaenoriaethau, mapio gwasanaethau, nodi adnoddau, datblygu a rheoli'r farchnad, strategaeth gweithlu, atal ac ymyrraeth gynnar.

**4.10.2** Mae Adran 25(6) o'r Ddeddf yn galluogi awdurdod lleol a'i bartneriaid statudol i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill ac i gyfuno cyllidebau i wella lles plant a phobl ifanc. Gall cyfuno cyllidebau ac adnoddau eraill fod yn nodwedd allweddol wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau comisiynu ar y cyd. Mae'n ddull pwysig ar gyfer dwyn strategaethau comisiynu a chyd-benderfynu ynghyd.

**4.10.3** Gall partneriaid lleol wneud trefniadau i hybu cydweithio a chyfuno cyllidebau i wella lles plant a phobl ifanc. Bydd partneriaid lleol yn gallu gwneud y defnydd gorau o gyfraniadau gan y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat drwy ymagwedd system gyfan tuag at ddarparu gwasanaethau. Gall sefydliadau'r sector gwirfoddol hefyd gyfrannu ac ymgysylltu'n effeithiol drwy ddarparu swyddfeydd ar gyfer cydleoli staff neu drwy gyfrannu staff i weithio fel rhan o dîm aml-asiantaeth.

**4.10.4** Disgwyliwn i bartneriaid lleol a byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd i sefydlu cyd-gyllidebau sy'n mynd ymhellach na'r trefniadau cyfredol o dan Ddeddf Iechyd 1999 ac i ddangos tystiolaeth o gydweithio llwyddiannus i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Y ffactor pwysicaf o ran cyfuno cronfeydd yn effeithiol yw eglurder o ran cwmpas yr arian a'r canlyniad sydd i'w gyflawni.

**4.10.5** Mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried pa gronfeydd y maent am eu cyfuno er mwyn datblygu cyd-ddarpariaeth. Mae arian Cymorth a Dechrau'n Deg yn arbennig o briodol fel cyfraniadau i gyllidebau cyfun ar gyfer ymyraethau ataliol sy'n cyflawni eu prif themâu ac a ddarperir mewn lleoliadau priodol.

**4.10.6** Gall Timau Troseddau Ieuenctid lunio trefniadau comisiynu ar y cyd a chyfuno cyllidebau gyda phartneriaid eraill er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid. Rheolwr neu Bennaeth Gwasanaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid fydd yn penderfynu ar gomisiynu a chyfuno.

## 4.11 Monitro ac adolygu gwasanaethau a phrosesau

**4.11.1** Mae trefniadau monitro ac adolygu ar draws partneriaid yn hybu cyd-ddealltwriaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau ac yn dystiolaeth werthfawr i benderfynu ar newidiadau angenrheidiol. Mae angen i bob partner fabwysiadu system adolygu gyffredin ar gyfer pob gwasanaeth er mwyn monitro cynnydd o ran darparu yn erbyn blaenoriaethau strategol.

**4.11.2** Mae prosesau mewnol ac allanol megis hunan-fonitro, asesiadau perfformiad blynyddol, defnyddio Offeryn Archwilio Hunan-Asesu y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac adroddiadau arolygu yn helpu i adeiladu darlun o gynnydd o ran cyflawni canlyniadau a ph'un a yw cyd-brosesau cynllunio a chomisiynu yn gweithio'n effeithiol. Mae'r canlyniadau yn nodi pa wasanaethau sy'n gweithio'n dda, p'un a oedd asesiadau anghenion cynharach yn gywir, a pha mor dda y mae'r cynllun yn cael ei weithredu.

# 5. INTEGREIDDIO'R GWAITH O DDARPARU GWASANAETHAU

**5.1** Ychydig o werth sydd i drefniadau comisiynu ar y cyd oni fyddant yn arwain at ymagwedd sy'n seiliedig ar ddiwallu anghenion asesedig plant a phobl ifanc drwy weithio rhyngddisgyblaethol er mwyn darparu gwasanaethau integredig. Digwydd integreiddio pan fo partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau darpariaeth rheng flaen sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn diwallu anghenion sy'n flaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar y cyd. Mae hyn yn gofyn am ymagwedd lle y gellir nodi anghenion yng nghyd-destun blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**5.2** Mae gwaith aml-asiantaeth yn bwysig o ran gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae cydweithio ar draws gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau a dargedwyd yn gweithredu gwaith partneriaeth, sy'n golygu y gellir mynd i'r afael â chyd-flaenoriaethau a chryfhau cydberthnasau rhyngbroffesiynol. Dyma elfennau hanfodol gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar.

### Enghreifftiau o Weithio Integredig

**5.3** Ceir enghreifftiau o drefniadau gwasanaethau integredig eisoes megis:

- Trefnu timau o staff i weithio o'r un swyddfa;
- Timau amddiffyn plant amlddisgyblaethol yn darparu gwasanaethau cysylltiedig i blant sy'n derbyn gofal;
- Timau amlddisgyblaethol yn darparu gwasanaethau i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl ac i droseddwyr ifanc.

**5.4** Mae rhaglen Cychwyn Cadarn o fewn Cymorth wedi sicrhau bod llawer o waith o ansawdd uchel yn cael ei wneud ar draws asiantaethau, gan ddwyn ynghyd, er enghraifft, wasanaethau cymdeithasol a mewnbwn ymwelwyr iechyd i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig. Datblygwyd yr ymagwedd hon yn wyneb tystiolaeth ryngwladol fod plant a phobl ifanc yn cael y budd mwyaf o ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag angen mewn modd holistig.

**5.5** Nid oes angen unffurfiaeth er mwyn cydweithio mewn tîm. Daw gwahanol broffesiynau â safbwyntiau gwerthfawr ac amrywiol a gallant gwestiynu eu rhagdybiaethau ei gilydd. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn datblygu iaith ac amcanion cyffredin. Er mwyn gwneud hyn mae angen datblygiad proffesiynol parhaus, rheolaeth a goruchwyliaeth briodol gyda llinellau atebolrwydd clir ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn timau. Gall cydweithio o ran defnydd o adnoddau hyfforddi ar draws partneriaid ddiwallu anghenion hyfforddi a nodwyd ar y cyd.

## Lleoliad Gweithio Integredig

**5.6** Dylai partneriaethau gynllunio i gynyddu i ba raddau y darperir gwasanaethau gan dimau amlddisgyblaethol mewn lleoliadau hygyrch. Gall cydleoli fynd i'r afael ag anghenion o ran mynediad a'r galw uchel am wasanaethau mewn rhai cymunedau.

### *Ysgolion Bro*

**5.7** Mae ysgolion mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ganolog mewn bywyd cymunedol a bod yn sail ar gyfer gofal plant a ddarperir yn lleol, chwarae, cymorth i deuluoedd a phlant, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau ieuenctid ac addysg oedolion. Mae menter yr ysgolion bro yn edrych ar ffyrdd newydd o alluogi ysgolion i ddatblygu fel adnoddau cymunedol. Gall ysgolion hefyd weithredu fel lleoliad ar gyfer darparu gwasanaethau i'r rhai ag anghenion arbenigol. Mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd o amddifadedd lle, yn aml iawn, nad oes cyfleusterau eraill ar gael a lle gallai pobl leol fod yn annhebygol o fanteisio ar gyfleoedd y tu allan i'w cynefin. O ganlyniad, efallai y bydd angen i un tîm aml-asiantaeth wasanaethu clwstwr o ysgolion mewn rhai ardaloedd.

**5.9** Atgyfnerthir rôl ysgolion gan ganfyddiadau adroddiad *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion* (Hydref 2002) a bwysleisiodd yr angen i ysgolion mewn rhai achosion weithio fel cyfrwng ar gyfer newid yn eu cymuned leol. Mae darpariaethau yn Neddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn haws i gyrff llywodraethu wasanaethu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol drwy wneud cytundebau â phartneriaid eraill iddarparu gwasanaethau ar dir yr ysgol ac i godi tâl am rai gwasanaethau. Bydd Mesur Addysg ac Arolygu 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ystyried y Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol.

### *Canolfannau Integredig*

**5.9** Nid ysgolion yw'r unig leoliadau addas ar gyfer timau aml-asiantaeth. Mae canolfannau integredig yn ganolbwynt arall - gellir eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer sefydlu rhwydweithiau o ddarpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys cymorth i deuluoedd, addysg blynyddoedd cynnar, chwarae, gofal plant a hyfforddiant cymunedol, a gwasanaethau ymwelwyr iechyd.

### *Lleoliadau Eraill*

**5.11** Efallai y byddai canolfannau cyfleusterau eraill yn y gymdogaeth megis llyfrgelloedd neu ganolfannau iechyd yn briodol. Fodd bynnag, y rhwydweithio rhwng unigolion yw'r elfen bwysig yn hytrach na'r ganolfan ei hun.

## Defnyddio gweithwyr proffesiynol arweiniol

**5.12** Gallai lleiafrif o blant a phobl ifanc sydd angen cymorth sy'n gofyn am fewnbwn gan sawl gweithiwr neu asiantaeth broffesiynol arbenigol gael budd o gyfraniad 'gweithiwr proffesiynol arweiniol' neu 'weithiwr

allweddol'. Mae rhieni plant a phobl ifanc ag anabledd wedi dweud wrthym mai dyma y maent am ei gael. Byddai'r gweithiwr allweddol yn darparu un pwynt cyswllt i'r rhai ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd ar gyfer trefnu cymorth gan amrywiaeth o ddarparwyr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Nod ymwneud o'r fath yw lleihau gorgyffwrdd ac anghysondeb o ran ymateb gan asiantaethau darparu.

### Datblygu Gweithlu

**5.13** Mae'r gweithlu yn hanfodol i waith integredig llwyddiannus. Dylid cynllunio ar gyfer datblygu gweithlu drwy strategaeth gweithlu leol yn ymdrin â gwasanaeth ac ailgynllunio rolau, a chydweithio i gynnal darpariaeth.  Cyhoeddir canllawiau pellach ar gynllunio gweithlu fel rhan o'r canllawiau ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

## 6. ASESU CYFFREDIN A RHANNU GWYBODAETH

**6.1** Mae nodi angen yn gynharach, a fydd yn arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc yn un o amcanion allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Bwriedir i'r Fframwaith Asesu Cyffredin gefnogi'r amcan hwn. Bydd yn gwella gweithio aml-asiantaeth ac yn gweithio fel strwythur cyffredin ar gyfer hwyluso gwell rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Bwriedir hefyd iddo ddileu ailasesu parhaus ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**6.2** Mae Fframwaith Asesu Cyffredin electronig yn cael ei ddatblygu a chaiff ei dreialu mewn pedair ardal ar ddechrau 2007. Bydd yn golygu ymagwedd safonol a chyson ar gyfer asesu anghenion plant a phobl ifanc. Bwriedir ei ddefnyddio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol a'r rhai sy'n wynebu risg o gael canlyniadau gwael. Mae angen ychwanegol yn derm eang ond mae'n cynnwys unrhyw blentyn a allai fod mewn perygl o beidio â chyflawni'r saith amcan craidd - er enghraifft, triwantiaid parhaus, disgyblion wedi'u gwahardd o'r ysgol neu bobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd.

**6.3** Bydd y Fframwaith Asesu Cyffredin electronig yn galluogi ymarferwyr ymhob asiantaeth i nodi anghenion a darparu cefnogaeth briodol ac ymyrraeth yn gynharach. Caiff ei ddatblygu ar ffurf a fydd yn cynnig posibilrwydd i ymarferwyr o bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gwblhau, anfon a derbyn asesiad cyffredin yn electronig. Bydd yn cynorthwyo gwaith cyfathrebu drwy ddatblygu iaith a dull cyffredin o ddeall a disgrifio anghenion plant, a thrwy hynny gefnogi cydweithio mwy effeithiol ymysg ymarferwyr o wahanol asiantaethau.

**6.4** Fel rhan o'r rhaglen ehangach i wella gweithio aml-asiantaeth a darparu gwasanaethau mwy integredig, bydd yn lleihau achosion o ddyblygu gweithgarwch ac asesu a brofir ar hyn o bryd gan rai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**6.5** Disgwylir y bydd ymarferwyr o unrhyw asiantaeth, gyda hyfforddiant priodol, yn gallu cynnal asesiad cyffredin. Lle bo'r asesiad hwn yn nodi bod gan y plentyn anghenion brys neu fwy cymhleth sy'n gofyn am ymyrraeth arbenigol, defnyddir y wybodaeth a gasglwyd wedyn i lywio'r broses asesu arbenigol.

**6.6** Mae sicrhau y rhennir gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn ddeallus ymysg partneriaid yn ganolog i wasanaethau effeithiol ac effeithlon i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae angen i weithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau a gwahanol asiantaethau allu rhannu gwybodaeth bersonol fel y gellir gwneud penderfyniadau priodol a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae cyrraedd y safonau cyfreithiol ar rannu gwybodaeth a chyfrinachedd yn rhan hanfodol o'r broses hon.

### Gweithredu hyd Yma

**6.7** Fel cam cyntaf, yn 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau a chyngor anstatudol o'r enw: 'Cyfrinachedd: Cod Ymarfer Iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru'. Mae hyn yn esbonio'r cysyniad o gyfrinachedd, yn disgrifio sut y dylai gwasanaeth cyfrinachol weithredu, yn rhoi braslun o'r gofynion cyfreithiol ac yn rhoi enghreifftiau o ffyrdd priodol o ymateb i geisiadau am wybodaeth. Mae manylion i'w cael yn: http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicysocialservices/content/guidance/confidentiality-code-w.pdf

**6.8** Mae uwch reolwyr mewn asiantaethau partner yn gyfrifol am sicrhau bod eu sefydliadau yn mynd i'r afael yn briodol â rhannu gwybodaeth a'i fod yn dod yn rhan annatod o gydweithio yn y pen draw. Bydd angen i bartneriaid ddynodi bod eu trefniadau yn cydymffurfio â gofynion y codau ymarfer yn eu maes arbenigedd ac ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

**6.9** Er mwyn symleiddio'r broses a sicrhau y pennir safonau cyffredin, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu *Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru*.

**6.10** Mae trefniadau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth ymysg asiantaethau yn cael eu datblygu eisoes fel rhan o Ymestyn Hawliau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau Pobl Ifanc ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth.

## 7. MESURAU CANLYNIADAU CYFFREDIN I GEFNOGI GWAITH PARTNERIAETH

**7.1** Mae mesur perfformiad yn bwysig yn y gwaith o gefnogi gwelliannau drwy fesur cynnydd a barnu ar lwyddiant. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'i phartneriaid mewn llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a'r sector gwirfoddol i ddatblygu fframwaith canlyniadau er mwyn mesur gwelliannau mewn canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a chynnydd o ran gweithredu hawliau plant.

**7.2** Mae ymgynghori wedi bod eisoes ar ddangosyddion perfformiad i roi darlun mwy cytbwys o berfformiad mewn 25 o feysydd polisi a gwasanaethau allweddol gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol-gwasanaethau plant, diwylliant hamdden a chwaraeon, trafnidiaeth ac ymgysylltiad democrataidd.

**7.3** Er mwyn galluogi trefniadau partneriaeth i weithio'n effeithiol, mae angen i'r systemau sy'n gweithredu ar draws asiantaethau - cynllunio, dadansoddi angen, rheoleiddio ac arolygu, mesur perfformiad, monitro a gwerthuso - fod yn briodol i'r tasgau newydd ac yn effeithiol o ran cefnogi cydweithio. Mae angen i fesurau fod yn berthnasol ac yn ystyrlon i asiantaethau partner, a gweithredu fel modd i hyrwyddo cydweithio i gyflawni canlyniadau sy'n flaenoriaeth gyffredin.

**7.4** Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Plant a Phobl Ifanc gyda'r dasg gychwynnol o gytuno ar ganlyniadau sy'n flaenoriaeth ac sy'n ategu'r Saith Amcan Craidd a detholiad o ddangosyddion cyfredol i'w mesur. Mae gwaith y Grŵp yn debygol o barhau o ran helpu i ddatblygu cyd-fesurau canlyniadau a chynghori o ran yr angen am newidiadau i ddangosyddion cyfredol a fydd yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth ac ymagwedd yn seiliedig ar hawliau tuag at fonitro canlyniadau yn effeithiol.

**7.5** Mae Grŵp Llywio sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn goruchwylio'r model ar gyfer dangos effaith Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r model hwn yn cysylltu targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy ddangosyddion perfformiad mewn partneriaeth leol neu lefelau rhwydwaith a sefydliadol â'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc. Gellir defnyddio hyn i fesur datblygiad agweddau allweddol ar ddeallusrwydd emosiynol yn ogystal â chanlyniadau mwy ffurfiol megis cymhwyso ac achredu. Caiff amrywiaeth o offer/dulliau y gellir eu defnyddio yn seiliedig ar ddulliau hunan-asesu, asesu gweithwyr a chydweithwyr eu datblygu a'u treialu cyn eu lledaenu a'u gweithredu'n ehangach. Bydd hyn yn fframwaith safonol ar gyfer mesur canlyniadau y gellir ei ddefnyddio ar draws pob gwasanaeth i blant a phobl ifanc.

## 8. AMDDIFFYN PLANT A PHOBL IFANC

**8.1** Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi dyletswydd ar bobl a chyrff allweddol i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc. O dan Adran 31(1) o'r Ddeddf, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer eu hardal. Dylai'r cyfrifoldebau newydd hyn helpu asiantaethau i greu a chynnal diwylliant ac ethos trefniadaethol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc.

**8.2** Cynhwysir canllawiau o dan Adran 28 o'r Ddeddf yn *Diogelu Plant: Cydweithio o dan Ddeddf Plant 2004* (Pennod 2), canllawiau ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant ac ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yng Nghymru neu'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer aelodaeth, swyddogaethau, trefniadaeth a llywodraethu, ariannu a monitro ac arolygu Byrddau Lleol Diogelu Plant.

# 9. ARWAIN NEWID - ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

## Awdurdodau Lleol

**9.1** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i:

- benodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(1)(a));
- dynodi aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(1) (b)).

**9.2** Mae Cyfarwyddwyr Arweiniol yn gyfrifol am gamau gweithredol y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd er mwyn cryfhau gwaith partneriaeth o ran swyddogaethau canlynol yr awdurdod o dan y Ddeddf:

- Adran 25 - y ddyletswydd i wneud a chynnal trefniadau i hybu cydweithio rhwng yr awdurdod a'i sefydliadau partner i wella lles plant a phobl ifanc yn ardal yr awdurdod;
- Adran 26 - y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc i nodi strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau o ran plant a phobl ifanc.

**9.3** Nid yw rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol yng Nghymru yn newid trefniadau ar gyfer awdurdod gweithredol nac atebolrwydd am wasanaethau. Mae tair prif rôl gan Gyfarwyddwyr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Y cyntaf yw cyfrifoldeb am hybu gwaith partneriaeth, yn gorfforaethol ymysg adrannau'r awdurdod lleol a rhwng yr awdurdod a'i bartneriaid. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn annibynnol ar unrhyw gyfrifoldeb gweithdrefnol y gall fod gan gyfarwyddwr arweiniol am wasanaeth neu grŵp o wasanaethau penodol. Mae'n canolbwyntio ar alluogi cydweithio cydweithredol.

**9.4** Nid yw'r Ddeddf yn diddymu'r dyletswyddau presennol sydd ar awdurdod lleol i benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Addysg. Nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth sy'n rhwystro un neu'r ddwy o'r swyddi statudol hyn a rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol rhag cael eu cyflawni gan yr un unigolyn. Fodd bynnag, mae angen trefniadau rheolaethol eglur ac arweiniad proffesiynol cryf ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ac mae angen sicrhau y caiff safonau darpariaeth eu gwella, yn enwedig lle maent yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc.

**9.5** Rhaid cynnal atebolrwydd am benderfyniadau a chraffu. Yn ei adroddiadau, mae Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi pwysleisio cyfrifoldebau craidd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyson.

**9.6** Yn ail, mae Cyfarwyddwyr Arweiniol yn darparu'r arweiniad sydd ei angen i sicrhau y rhoddir proffil uchel i gynllunio partneriaethau yn yr awdurdod lleol a hybu newid strategol i blant a phobl ifanc yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r broses o rannu'r wybodaeth gynllunio angenrheidiol ac awyrgylch adeiladol a chydweithredol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dylent weithredu fel man cyswllt ar gyfer partneriaid i'w galluogi i godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt dros gynnwys eu barn yn y broses o wneud penderfyniadau ac i sicrhau bod y materion a godir yn derbyn ymateb.

**9.7** Mae angen i'r Cyfarwyddwr Arweiniol sicrhau bod gan bartneriaethau drefniadau llywodraethu clir, eu bod yn canolbwyntio ar fesurau canlyniadau yn eu prosesau cynllunio ac yn asesu perfformiad yn rheolaidd fel y gellir mesur eu heffeithiolrwydd. Mae Cyfarwyddwyr Arweiniol yn gyfrifol am sicrhau y cytunir ar drefniadau ar gyfer llywodraethu partneriaeth pob dwy flynedd o leiaf a'u hadolygu gan ddefnyddio offer Hunan-asesiad Partneriaeth Nuffield neu offer cyfatebol. Maent hefyd yn gyfrifol am gwblhau Offeryn Hunan-asesu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn rheolaidd sy'n mesur gwelliant yn safonau'r gwasanaethau.

**9.8** Yn drydydd, mae Cyfarwyddwyr Arweiniol yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir sylw i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y cyfrifoldeb hwn yn cynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, yn cymryd rhan wrth baratoi ac adolygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y cynrychiolir eu barnau yn effeithiol a bod y materion a godir ganddynt yn derbyn ymateb.

**9.9** Mae'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn atebol i'w Brif Weithredwr am gyflawni'r tasgau a nodir uchod, ac i aelodau pwyllgorau gweithredol, trosolwg a chraffu'r awdurdod.

**9.10** Rhaid i'r Cyfarwyddwr Arweiniol fod yn uwch swyddog sy'n meddu ar y gallu i weithredu'r awdurdod angenrheidiol i arwain proses newid a fydd yn cael effaith ar ddealltwriaeth ac ymagwedd eu cymheiriaid i weithio mewn partneriaeth. Mae gan yr agweddau hyn bwysigrwydd ychwanegol o ystyried sefyllfa arwain awdurdodau lleol wrth hyrwyddo partneriaeth. Yn unol â hyn, dylai'r Cyfarwyddwr Arweiniol fod yn aelod o dîm corfforaethol yr awdurdod ac yn atebol i'r Prif Weithredwr - oni bai y penodir y Prif Weithredwr fel Cyfarwyddwr Arweiniol.

**9.11** Mae rôl yr Aelod Arweiniol yn adlewyrchu rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol yn wleidyddol. Mae'r Aelod Arweiniol yn gyfrifol o fewn y broses wleidyddol am hyrwyddo rôl arweiniol yr awdurdod wrth alluogi gwaith partneriaeth a sicrhau y rhoddir y sylw priodol i'r angen am gydweithredu ar draws partneriaid o fewn y broses gwneud penderfyniadau. Dylai Aelod Arweiniol gefnogi cydweithredu effeithiol a rhannu'r cyfrifoldeb gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol am sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth briodol i anghenion plant a phobl ifanc.

**9.12** Mae'r Aelod Arweiniol yn rhoi arweiniad drwy gysylltu â phartneriaid. Fel aelod etholedig o'r cyngor, rhaid i'r Aelod Arweiniol gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau'r

awdurdod lleol ac annog arweinwyr sefydliadau partner i ddatblygu a chynnal gweledigaeth ar y cyd.

**9.13** Dylai'r Aelod Arweiniol fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod. Rhaid i'r swyddogaethau y mae'r Aelod Arweiniol yn gyfrifol yn wleidyddol amdanynt, fel isafswm, fod y swyddogaethau hynny y mae gan y Cyfarwyddwr Arweiniol gyfrifoldeb amdanynt. Fel aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol, mae'r Aelod Arweiniol mewn sefyllfa i amlygu atebolrwydd y prif swyddogion i'r prif weithredwr a'r aelodau etholedig ar gyfer rhoi eu gwasanaethau tuag at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, ac o 2008, i fodloni eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

**9.14** Mae'r Aelod Arweiniol hefyd mewn sefyllfa dda i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gwneud cyfraniad gwirioneddol i ddatblygu'r gwasanaethau. Dylid cyflawni hyn drwy gael eu safbwyntiau ar flaenoriaethau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau. Mae'n bwysig eu bod yn cael ymateb am hyn.

**9.15** Rhaid i gyfathrebu o fewn partneriaethau a rhwng asiantaethau partner unigol roi gwybodaeth effeithiol am gefndir penderfyniadau, a'r rhesymau drostynt. Mae hyn yn gyfrifoldeb arbennig y Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Arweiniol yn eu rolau o hyrwyddo cydweithrediad. Rhaid i'r naill a'r llall sicrhau yr hysbysir y broses o wneud penderfyniadau o fewn gweithrediaeth a chyngor yr awdurdod yn effeithiol ynglŷn â phenderfyniadau partneriaethau perthnasol.

**9.16** Mae angen i'r Cyfarwyddwr a'r Aelod Arweiniol gydweithio'n agos fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Dylai'r Cyfarwyddwr Arweiniol allu cysylltu'n uniongyrchol â phob aelod o'r awdurdod, gan gynnwys aelodau o'r pwyllgorau gweithredol a chraffu.

**9.17** Gallai cyflwyno'r cyfrifoldebau arweiniol hyn orfodi newidiadau i rolau'r Cydgysylltwyr/Rheolwyr Partneriaeth, sydd mewn sefyllfa ddelfrydol, o ystyried eu tasgau presennol, i gefnogi'r Cyfarwyddwr Arweiniol.

## Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**9.18** Mae Adran 27(2) o'r Ddeddf Plant yn gofyn i Fwrdd Iechyd Lleol nodi Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelod Bwrdd dynodedig nad yw'n swyddog, ac Ymddiriedolaeth y GIG i ddynodi Cyfarwyddwr Arweiniol Gweithredol ac Anweithredol, i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am eu trefniadau unigol am gydweithrediad ym mhroses cynllunio'r bartneriaeth. Mae eu cyfrifoldebau yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Aelod Arweiniol mewn Awdurdodau Lleol.

**9.19** Yn gyntaf, maent yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd gan sicrhau yr effeithir ar gydweithrediad effeithiol ym mhroses gwneud penderfyniadau partneriaeth gan Ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau. Mae'r cyfrifoldeb hwn, fel mewn awdurdodau lleol, yn annibynnol ar unrhyw gyfrifoldeb gweithredol

am wasanaeth arbennig neu grŵp o wasanaethau, ac yn ychwanegol iddo, ond fe'i bwriedir i sicrhau y ceir cydweithio.

**9.20** Yn ail, maent yn rhoi'r arweiniad angenrheidiol er mwyn sicrhau y rhoddir proffil uchel i bartneriaeth wrth gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r broses o rannu'r wybodaeth gynllunio angenrheidiol ac awyrgylch adeiladol a chydweithredol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Rhaid iddynt sicrhau bod gan bartneriaethau drefniadau llywodraethu clir a ffocws ar fesurau canlyniadau yn eu proses cynllunio, ac asesiad rheolaidd o'u perfformiad fel y gellir mesur eu heffeithiolrwydd. Rhaid iddynt sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cysylltu'n llawn mewn trefniadau ar gyfer llywodraethu partneriaeth ac yn cyfrannu at gwblhau Offeryn Archwilio Hunan-Asesu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth.

**9.21** Maent yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir yr ystyriaeth briodol i weithredu hawliau plant a phobl ifanc ac y bodlonir gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys sicrhau y cynrychiolir safbwyntiau plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, yn effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau yn y gwasanaeth iechyd ac y caiff materion a godir ganddynt ymateb.

**9.22** Yn ogystal, dylai'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol arfer y rôl a argymhellir yn Adroddiad Kennedy (ar reoli gofal plant sy'n derbyn llawdriniaeth gymhleth ar y galon yn Ysbyty Brenhinol Bryste) o fod yr unig swyddogion yn y sefydliad gyda chyfrifoldeb cyffredinol am wasanaethau plant.

### Cyfrifoldeb Arweiniad Partneriaid Eraill

**9.23** Mae rolau cyfrifoldeb ymhlyg yng nghynrychiolaeth partneriaid eraill. Mae gan bob cynrychiolydd partner gyfrifoldeb cyfatebol i arwain eu hasiantaeth eu hunain mewn hyrwyddo gwaith partneriaeth a deall goblygiadau'r penderfyniadau a wneir ar y cyd mewn Partneriaethau.

## Atodiad 1: Cydgysylltu Partneriaethau Allweddol yn Strategol

1. Mae aelodaeth graidd gyffredin o bartneriaid statudol ar draws Byrddau Lleol Diogelu Plant, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol:

- awdurdodau lleol;
- yr heddlu;
- Byrddau Iechyd Lleol.

Mae gan bob un ohonynt gyfraniad mawr i'w wneud i gyflwyno mesurau effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae angen rhoi ystyriaeth i safle cyrff "partneriaeth" statudol ac anstatudol eraill o fewn unrhyw strwythur cydgysylltu cynllunio.


2. O ystyried natur drawsbynciol y cyrff hyn, mae'n amlwg bod cryn le i ddatblygu strwythurau rheoli cyffredin a llinellau atebolrwydd.

3. Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pennu sut y dylai asiantaethau reoli'r agenda drawsbynciol hon ond anogir y prif asiantaethau i ddatblygu strwythurau a fydd yn gwneud y gorau o drefniadau cydweithio, yn lleihau achosion o ddyblygu ac yn rhoi llinellau atebolrwydd clir.

4. Mae'r model isod yn dangos ymagwedd y gallai asiantaethau ei hystyried wrth ddatblygu cydberthnasau gwaith ar y cyd. Mae'n dod â swyddogion gweithredol o asiantaethau allweddol ynghyd - yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r bwrdd iechyd lleol - sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am ddyrannu arian ac adnoddau o fewn eu priod asiantaethau. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cyfarwyddwyr arweiniol gwasanaethau plant a phobl ifanc, cyfarwyddwr gweithredol y BILl a chadeiryddion y pedair partneriaeth allweddol lle na chânt eu cynrychioli eisoes gan y rhai a restrir.

5. Byddai'r Grŵp yn gyfrifol am gydgysylltu ac arwain cyfeiriad strategol y cyrff partneriaeth allweddol a ddangosir, gan gynnwys arfer swyddogaethau partneriaeth o ran plant a phobl ifanc. Byddai'n adolygu cynnydd pob partneriaeth wrth fodloni'i chyfrifoldebau fel y nodwyd mewn cynlluniau strategol 0-3 blynedd a byddai'n debygol o gwrdd 2-3 gwaith y flwyddyn.

6. Byddai'n gorff gweithredol gyda chyfrifoldeb am gyfarwyddo gwaith y partneriaethau allweddol hyn. Byddai pob asiantaeth yn parhau i fod yn gyfrifol am ei busnes beunyddiol ei hun, fel y byddai gweithrediadau polisi a swyddogaethol penodol.


Strategaeth Gymunedol
Grŵp Cydgysylltu Strategol: Prif Swyddogion; Cyfarwyddwyr Arweiniol Cadeiryddion Partneriaeth
BLIDP
Partneriaethau PaPhl
Iechyd, Lles
Diogelwch Cymunedol
Adolygiadau Achosion Difrifol
Polisïau, Arfer, Gweithdrefnau
Hyfforddiant
Monitro
Gofal Plant
Iechyd
Cymorth Teulu
Chwarae a Hamdden
Dysgu, Addysg a Datblygiad
PaPhl ag anghenion ychwanegol
Tlodi
Cyfranogwyr a Gwybodaeth

# Atodiad 2: Deddf Plant 2004: Adrannau 25, 26, 27 ac 28

## 25 Cydweithrediad i wella lles: Cymru

**(1)** Rhaid i bob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng:

(a) yr awdurdod;

(b) pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod;

(c) y cyfryw bersonau neu gyrff eraill yr ystyrir gan yr awdurdod eu bod yn briodol, boed yn bersonau neu'n gyrff o unrhyw natur sy'n gweithredu swyddogaethau neu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mewn perthynas â phlant o fewn ardal yr awdurdod.

**(2)** Gwneir y trefniadau gyda'r bwriad o wella lles plant yn ardal yr awdurdod o ran:

(a) iechyd corfforol a meddwl a lles emosiynol;

(b) diogelu rhag niwed ac esgeulustod;

(c) addysg, hyfforddiant a hamdden;

(ch) y cyfraniad a wneir i gymdeithas ganddynt;

(d) lles cymdeithasol ac economaidd.

**(3)** Wrth wneud trefniadau o dan yr adran hon, dylai awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru ystyried pwysigrwydd rhieni a phersonau eraill sy'n gofalu am blant wrth wella lles plant.

**(4)** At ddibenion yr adran hon, mae pob un o'r canlynol yn bartner perthnasol awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru:

(a) awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod gwasanaethau plant;

(b) bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

(c) tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

(ch) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

(d) ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau o fewn ardal yr awdurdod;

(dd) y Cynulliad, i'r fath raddau ei fod yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

**(5)** Rhaid i bartneriaid perthnasol awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru gydweithio â'r awdurdod wrth wneud y trefniadau o dan yr adran hon.

**(6)** Gall awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru ac unrhyw rai o'i bartneriaid perthnasol, at ddibenion trefniadau o dan yr adran hon:

(a) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill;

(b) sefydlu a chynnal cronfa gyfun.

**(7)** At ddibenion isadran (6) mae cronfa gyfun yn gronfa:

(a) a ffurfir o gyfraniadau gan yr awdurdod a'r partner neu bartneriaid perthnasol dan sylw;

(b) y dylid gwneud taliadau allan ohoni tuag at wariant wrth gyflawni swyddogaethau'r awdurdod a swyddogaethau'r partner neu'r partneriaid perthnasol.

**(8)** Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru a phob un o'i bartneriaid perthnasol ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan y Cynulliad wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon.

**(9)** Rhaid i'r Cynulliad gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn rhoi canllawiau o dan isadran (8) ar unrhyw amser ar ôl i unrhyw rai o baragraffau (a) i (c) yn isadran (4) ddod i rym.

**(10)** Gall trefniadau o dan yr adran hon gynnwys trefniadau o ran:

(a) pobl 18 ac 19 oed;

(b) pobl dros 19 oed sy'n derbyn:

(i) gwasanaethau o dan adrannau 23C i 24D o Ddeddf Plant 1989 (c. 41);

(ii) gwasanaethau cymorth ieuenctid (o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c. 21)).

### 26 Cynlluniau plant a phobl ifanc: Cymru

**(1)** Gall y Cynulliad, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun o bryd i'w gilydd yn nodi strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phersonau ifanc perthnasol.

**(2)** Gall rheoliadau o dan yr adran hon ddarparu ar gyfer:

(a) y materion yr ymdrinnir â hwy mewn cynllun o dan yr adran hon;

(b) y cyfnod y dylai cynllun o dan yr adran hon gyfeirio ato;

(c) pryd a sut y dylid cyhoeddi cynllun o dan yr adran hon;

(ch) adolygu cynllun o dan yr adran hon yn barhaus;

(d) ymgynghoriad i'w gynnal cyn y cyhoeddir cynllun o dan yr adran hon;

(dd) gweithredu cynllun o dan yr adran hon.

**(3)** Mae'r materion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer o dan isadran (2)(a) yn cynnwys y canlynol yn arbennig:

(a) y trefniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud o dan adran 25 gan awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru;

(b) y strategaeth neu'r cynigion mewn perthynas â phlant a phersonau ifanc perthnasol o unrhyw berson neu gorff y mae awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru yn gwneud neu'n cynnig gwneud trefniadau o'r fath gyda hwy.

**(4)** Gall rheoliadau o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru gael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn cyhoeddi cynllun o dan yr adran hon; a gall olygu y gall y Cynulliad addasu cynllun cyn ei gymeradwyo.

**(5)** Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru ystyried unrhyw ganllawiau a roddir iddynt gan y Cynulliad mewn perthynas â sut y dylent gyflawni eu swyddogaethau o dan y rheoliadau yn yr adran hon.

**(6)** Yn yr adran hon mae "personau ifanc perthnasol" yn golygu personau, yn ogystal â phlant, y gellir gwneud y trefniadau o dan adran 25 mewn perthynas â hwy.

## 27 Cyfrifoldebau ar gyfer swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26

**(1)** Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru:

(a) penodi swyddog, a elwir yn "gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", at ddibenion cydgysylltu a goruchwylio trefniadau a wneir o dan adrannau 25 a 26;

(b) dynodi un o'u haelodau, i'w adnabod fel "aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", i fod yn gyfrifol am weithredu swyddogaethau'r awdurdod o dan yr adrannau hynny.

**(2)** Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol:

(a) penodi swyddog, a elwir yn "swyddog arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc" y Bwrdd, at ddibenion swyddogaethau'r Bwrdd o dan adrannau 25;

(b) dynodi un o aelodau'r Bwrdd nad yw'n swyddog fel ei "aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", i fod yn gyfrifol am weithredu'r swyddogaethau hynny.

**(3)** Rhaid i ymddiriedolaeth y GIG y mae adran 25 yn berthnasol iddi:

(a) penodi cyfarwyddwr gweithredol, a elwir yn "gyfarwyddwr gweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc" yr ymddiriedolaeth, at ddibenion swyddogaethau'r ymddiriedolaeth o dan yr adran honno;

(b) dynodi un o gyfarwyddwyr anweithredol yr ymddiriedolaeth fel ei "gyfarwyddwr anweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", i fod yn gyfrifol am weithredu'r swyddogaethau hynny.

**(4)** Rhaid i bob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaeth y GIG y mae adran 25 yn berthnasol iddynt ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan y Cynulliad mewn perthynas â:

(a) eu swyddogaethau o dan yr adran hon;

(b) cyfrifoldebau'r personau a benodir neu a ddynodir ganddynt o dan yr adran hon.

### 28 Trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles: Cymru

**(1)** Mae'r adran hon yn berthnasol i bob un o'r canlynol:

(a) awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol;

(c) ymddiriedolaeth y GIG y mae pob un neu'r rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau wedi'u lleoli yng Nghymru;

(ch) awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;

(d) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, o ran gweithredu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru;

(dd) bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal yng Nghymru;

(e) tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal yng Nghymru;

(f) llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi diogel wedi'i eithrio, ei gyfarwyddwr);

(ff) unrhyw berson cyn belled a'i fod yn darparu'r gwasanaethau yn unol â threfniadau a wnaed gan awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru o dan adran 123(1)(b) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c. 21) (gwasanaethau cymorth ieuenctid).

**(2)** Rhaid i bob person a chorff y mae'r adran hon yn berthnasol iddynt wneud trefniadau ar gyfer sicrhau:

(a) y gweithredir eu swyddogaethau o ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;

(b) y darperir unrhyw wasanaethau a ddarperir gan berson arall yn unol â threfniadau a wnaed gan y person neu'r corff wrth weithredu eu swyddogaethau gan ystyried yr angen hwnnw.

**(3)** Yn achos awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru, nid yw'r cyfeiriad yn isadran (2) at swyddogaethau'r awdurdod yn cynnwys swyddogaethau y mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (c. 32) yn berthnasol iddynt.

**(4)** Gall personau a chyrff y cyfeirir atynt yn isadrannau (1)(a) i (c) ac (i) ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan y Cynulliad at y diben hwnnw wrth weithredu eu swyddogaethau o dan yr adran hon.

**(5)** Gall personau a chyrff y cyfeirir atynt yn isadran (1)(ch) i (f) ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ôl ymgynghori â'r Cynulliad at y diben hwnnw wrth weithredu eu swyddogaethau o dan yr adran hon.